
Canllaw arfer da i helpu atal camddefnyddio rhifau a is-ddyrennir ac a aseindir

Canllaw arfaethedig i ddarparwyr gwasanaethau
telathrebu

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Chwefror 2022

Dyddiad Cau ar gyfer Ymatebion: 20 Ebrill 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg

1

1. Trosolwg

Mae diogelu defnyddwyr rhag niwed yn flaenoriaeth i Ofcom ac rydym yn pryderu am broblem gynyddol sgamiau a hwylusir gan alwadau a negeseuon testun.¹ Mae'r defnydd o alwadau a negeseuon testun sgam bellach yn gyffredin, gyda'n hymchwil yn nodi bod ymgeisiau sgamio tybiedig yn effeithio ar y mwyafrif helaeth o bobl yn y DU. At hynny, dros gyfnod tri mis ein harolwg, amcangyfrifwyd bod bron i filiwn o bobl wedi dilyn cyfarwyddiadau'r sgamwyr mewn neges neu alwad, gan godi'r perygl o golled ariannol a gofid emosiynol pe bai'r ymgais i sgamio'n llwyddiannus. Hyd yn oed pan na chânt eu twyllo gan sgamiwr, gall pobl sy'n derbyn ymgeisiau i sgamio brofi annifyrrwch a gofid. Mae sgamiau hefyd yn codi costau ar yr economi ehangach, gan gynnwys gwariant gan fusnesau cyfreithlon i gefnogi'r cwsmeriaid hynny sy'n dioddef twyll.

Tacteg gyffredin yw i sgamwyr gysylltu â phobl gan ddefnyddio galwad, gan honni'n aml eu bod o sefydliadau dilys er mwyn twyllo eu dioddefwr i ddarparu manylion personol neu wneud taliad. Mae defnyddio rhif ffôn dilys yn golygu bod y sgam yn edrych yn ddilys.

Mae Ofcom yn gyfrifol am weinyddu rhifau ffôn y DU o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 (y Ddeddf). Dyrennir rhifau ffôn gan Ofcom i ddarparwyr telathrebu, a all wedyn drosglwyddo'r rhifau i fusnesau neu unigolion eraill. Mae gennym reolau ar waith sy'n nodi'r cyfrifoldebau ar y rhai sy'n trosglwyddo ac yn defnyddio rhifau.² Fodd bynnag, rydym wedi nodi anghysondebau a bylchau yn yr arferion presennol, yn enwedig yn y gwiriadau y mae darparwyr yn eu gwneud ar gwsmeriaid sy'n gofyn am rifau a'u hymateb pan fyddant yn cael gwybod am y defnydd o'r rhifau hynny ar gyfer sgamiau.

Yn y ddogfen hon, rydym yn ymgynghori ar ganllaw arfer da arfaethedig sy'n nodi'r camau rydym yn disgwyl i ddarparwyr eu cymryd i helpu i atal rhifau ffôn dilys rhag cael eu camddefnyddio, gan gynnwys i hwyluso sgamiau. Bydd hyn yn darparu mwy o eglurder i ddarparwyr o ran sut rydym yn disgwyl iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau presennol o dan ein rheolau. Pan fydd darparwyr wedi rhoi'r mesurau hyn ar waith, bydd yn anoddach i bobl sy'n bwriadu camddefnyddio rhifau gael mynediad atynt, gan helpu i leihau niwed i ddefnyddwyr o ganlyniad i alwadau sgam. Wrth ymchwilio i achosion o gamddefnyddio rhifau, byddem yn disgwyl cymryd y canllaw i ystyriaeth wrth ystyried a yw camau gorfodi'n briodol ai beidio.

Beth rydym yn ei gynnig

Mae'r canllaw arfaethedig yn nodi'r camau yr ydym yn disgwyl i ddarparwyr eu cymryd i helpu i atal rhifau dilys rhag cael eu camddefnyddio. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr roi prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'u cwsmeriaid busnes a sut y bydd rhifau'n cael eu defnyddio ganddynt cyn i'r rhifau gael eu trosglwyddo. Rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr fod â phrosesau yn eu lle i wirio bod cwsmeriaid yn defnyddio rhifau yn unol â'r Amodau Cyffredinol, ac ar gyfer ymateb i adroddiadau o gamddefnyddio.

¹ Gweler Ofcom, Mawrth 2021. [Cynllun Gwaith Ofcom 2021/22](#), tudalen 17

² Amod Cyffredinol B1 yr [Amodau Hawliau Cyffredinol](#).

Yn benodol, rydym yn disgwyl i ddarparwyr:

- gyflawni set gadarn o wiriadau diwydrwydd dyladwy cyn is-ddyrannu neu aseinio rhifau;
- cael dull o nodi lle mae mwy o risg y bydd rhifau'n cael eu camddefnyddio;
- rhoi mesurau rheoli cytundebol ar waith sy'n galluogi'r darparwr i gyflawni ei rwymedigaethau rheoleiddio;
- cadw lefel y risg a berir gan gwsmer busnes yn destun adolygu parhaus drwy fonitro ar gyfer y posibilrwydd o gamddefnyddio rhifau; a
- chael proses briodol ar gyfer ymateb i adroddiadau o gamddefnyddio posib.

Y camau nesaf

- 1.1 Rydym yn gwahodd ymatebion i'r ymgynghoriad hwn erbyn 20 Ebrill 2022. Yn amodol ar ystyried y safbwyntiau a'r dystiolaeth a gyflwynwyd mewn ymatebion, ein nod yw cyhoeddi penderfyniad ar ein cynigion yn hydref 2022.
- 1.2 Mae'r canllaw arfaethedig hwn yn rhan o waith ehangach Ofcom i daclo galwadau a negeseuon testun sgam. Ochr yn ochr â'n canllaw arfer da arfaethedig, rydym yn ymgynghori ar gynigion i gryfhau ein rheolau a'n harweiniad er mwyn i ddarparwyr ganfod a rhwystro rhifau sydd wedi'u sbŵffio. Rydym hefyd wedi rhoi gwybodaeth ychwanegol ar ein gwefan i esbonio diben ein rhestr 'Heb Ddangos Tarddiad' (DNO) a sut i gysylltu os ydych yn credu bod gennych rifau y dylid eu hychwanegu at y rhestr. Byddwn yn ystyried a ellir ehangu'r rhestr DNO i gynnwys rhifau o grŵp ehangach o sefydliadau.
- 1.3 Byddwn yn cynnal ymchwil ddilynol i nifer yr achosion o alwadau a negeseuon testun sgam i'n helpu i fonitro effaith y gwaith yr ydym ni ac eraill yn ei wneud, gan gynnwys ble i ganolbwyntio ein hymdrechion wrth i sgamwyr esblygu eu tactegau. Bydd yr ymchwil hefyd yn cyfeirio ein gwaith parhaus o gynyddu ymwybyddiaeth o sgamiau a'r camau y gall pobl eu cymryd i ddiogelu eu hunain. Byddwn hefyd yn parhau i gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gweithio i leihau sgamiau fel rhan o ddull cydgysylltiedig.